# CAEL Y GORAU O ECONOMY 7

National Energy Action yw'r elusen genedlaethol sy'n eich helpu gyda'ch biliau ynni. Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor ar sut mae Economy 7 yn gweithio a sut i ddefnyddio'ch rheolyddion.

**Mae Economy 7 yn fath o dariff trydan 'amser defnyddio', sy'n darparu trydan rhatach (allfrig) am saith awr, fel arfer rhwng hanner nos a 7am.**




Ar adegau eraill codir tâl am drydan ar gyfradd frig ddrutach. Fel arfer, Economy 7 sydd orau ar gyfer cartrefi gyda gwresogyddion storio. Os oes gennych chi Economy 7, bydd y daflen hon yn dweud wrthych chi sut i gael y gorau ohoni. Gall Economy 7 eich helpu i arbed arian. Fodd bynnag, efallai na fydd yn addas os yw'r rhan fwyaf o'ch trydan yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd. Er mwyn i Economy 7 fod yn economaidd i chi, dylech allu defnyddio o leiaf 40% o'ch trydan yn y nos. Gwiriwch eich biliau i weld faint rydych chi'n ei ddefnyddio yn y nos.


# SUT I GAEL GWYBOD A YDYCH CHI AR ECONOMY 7

**Byddwch yn gwybod eich bod ar dariff Economy 7 oherwydd eich mesurydd a'ch biliau'n dangos naill ai:**

- dau ddarlleniad mesurydd
- cyfradd isel neu all-frig (off peak)
- cyfradd arferol, uchel neu frig (peak)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LOW | 4 | 7 | 4 | 2 | 8 |
| | 10,000 | 1000 | 100 | 10 | 0.1 |
| HIGH | 4 | 7 | 4 | 2 | 8 |

**Neu, bydd botwm i'w wasgu i weld pob cyfradd, os oes gennych fesurydd Economy 7 electronig.**




# GWRESOGYDDION STORIO NOS

Mae llawer o gartrefi'n defnyddio gwresogyddion storio trydan yn lle gwres canolog nwy. Mae gwresogyddion storio'n defnyddio tariffau **Economy 7** neu **Economy 10** i gael ynni rhatach yn y nos. Mae hyn yn creu gwres a all gael ei ryddhau i'ch cartref y diwrnod wedyn.

## TARIFF ECONOMY 10

Mae Economy 10 yn dariff ynni amser defnyddio arall sy'n rhoi cyfradd nos rhatach, ond mae'n llai cyffredin nag Economy 7.

Mae tariff **Economy 10** yn darparu 10 awr gosod o drydan rhatach all-frig:


- **tair awr o drydan rhatach yn y prynhawn**
- **dwy awr min nos a;**
- **pum awr drwy'r nos**

I gael tariff Economy 10 mae angen mesurydd Economy 10. Mae'r rhain yn wahanol i fesuryddion safonol ac Economy 7 gan fod ganddynt allu ychwanegol sy'n eu galluogi i fesur y defnydd o drydan rhwng yr amserau Economy 10 a bennir gan y cyflenwr.

Nid yw pob cyflenwr yn cynnig tariffau Economy 10. Efallai y bydd dewis o dariffau eraill all gael eu defnyddio ar gyfer gwresogyddion storio, felly mae'n werth gofyn i'ch cyflenwr.

RHIF COFRESTRU ELUSEN. 290511

Economy 7 SINGLES.indd 2 24/09/2025 14:58:49




**I sicrhau y gallwch reoli eich gwresogi rhaid i chi osod y rheolyddion ar bob gwresogydd storio'n gywir.**

1 **Mae'r rheolydd INPUT neu CHARGE yn rheoli faint o wres sy'n cael ei storio yn ystod y nos.** Dylid ei osod yn uwch mewn tywydd oer a'i droi i lawr neu i ffwrdd mewn tywydd cynhesach.


2 **Mae'r rheolydd OUTPUT neu BOOST yn rheoli cyfradd ryddhau'r gwres sydd wedi'i storio.** Dylid ei adael ar osodiad isel yn ystod y dydd ac yna ei droi i fyny fin nos os oes angen mwy o wres.

| | |
|---|---|
| **YN Y NOS** | |
| **INPUT** | **OUTPUT** |
| Gosodwch gan ddibynnu ar y tymheredd disgwyliedig y diwrnod nesaf | Gosodwch i'r gosodiad isaf neu'r symbol 'rheoli rhew' |
| **YN Y DYDD** | |
| **INPUT** | **OUTPUT** |
| Gosodwch gan ddibynnu ar y tymheredd disgwyliedig y diwrnod nesaf | Gosodwch i isel oni bai bod angen gwres ychwanegol |
| **MIN NOS** | |
| **INPUT** | **OUTPUT** |
| Gosodwch gan ddibynnu ar y tymheredd disgwyliedig y diwrnod nesaf | Gosodwch i uchel os oes angen ond gosodwch i isel eto erbyn amser gwely |

# SILINDR DŴR POETH


**Os yw eich dŵr poeth yn cael ei gynhesu gan drydan, bydd gwresogydd trochi y tu mewn i'ch silindr/tanc dŵr poeth. I'r rhai ar dariff Economy 7 neu 10, mae'n debyg y bydd hwn yn wresogydd trochi deuol.**

Mae gan hwn elfen gwresogydd trochi trydan ar y gwaelod i gynhesu'r tanc cyfan ac un arall i gynhesu maint llai o ddŵr fel y bo angen.




Os oes gennych chi switsh 'boost', mae hyn yn gadael i chi ddefnyddio hwn i gynhesu'r dŵr ychwanegol sydd ei angen. Mae amserydd/rheolydd yn golygu bod y gwresogydd trochi'n defnyddio trydan all-frig i gynhesu silindr llawn o ddŵr yn ystod y nos sy'n cael ei storio i'w ddefnyddio y diwrnod a'r nos wedyn.Os oes angen dŵr poeth arnoch yn ystod y dydd, yna defnyddiwch y switsh 'boost'. Bydd yn cynhesu maint llai o ddŵr gan ddefnyddio trydan cyfradd ddydd. Os nad oes gennych switsh 'boost', yna defnyddiwch y switsh ymlaen/i ffwrdd (on/off) i droi'r gwresogydd ymlaen am 30 munud ac yna diffoddwch ef. Gwiriwch fod eich silindr dŵr poeth wedi'i inswleiddio'n dda er mwyn sicrhau bod y dŵr yn aros yn boeth nes eich bod chi eisiau ei ddefnyddio.

# SILINDR DŴR POETH (parhad)




## SUT I DDEFNYDDIO EICH RHEOLYDDION

Dyma enghraifft o'r hyn sut efallai y mae eich rheolyddion yn edrych:

**1** **Efallai bod gan eich silindr dŵr poeth amserydd/cloc/rheolydd.** Gellir defnyddio hyn i roi rheolaeth ychwanegol i chi dros gynhesu eich dŵr.

**2** **Mae switsh neu ddeial 'boost' yn troi eich gwresogydd trochi ymlaen am awr i roi dŵr poeth ychwanegol os oes angen drwy gydol y dydd.** Oherwydd cost trydan oriau brig, peidiwch â defnyddio'r gosodiad 'boost' oni bai bod gwir angen y dŵr poeth ychwanegol arnoch chi.

**CYNGOR**

Mae'r rhan fwyaf o gawodydd trydan yn cynhesu eu dŵr eu hunain, felly does dim angen i chi droi'r gwresogydd storio ymlaen ar gyfer hyn.

**Efallai y bydd angen addasu gosodiadau eich amserydd** i Amser Haf Prydain (BST) ac yn ôl eto i Amser Safonol Greenwich (GMT) pan fydd y clociau'n newid ym mis Mawrth a mis Hydref.

## OS YDYCH CHI'N DAL I GAEL TRAFFERTH, FFONIWCH GWASANAETH CYNGOR A CHEFNOGAETH YNNI NATIONAL ENERGY ACTION AR 0800 304 7159 NEU EWCH I WWW.NEA.ORG.UK/GET-HELP.

**Gallwch gyfieithu gwefan a thaflenni National Energy Action i dros 160 o ieithoedd - a chael testun i leferydd ar gyfer dros 100 ohonynt. Gallwch hefyd addasu testun ar gyfer niwroamrywiaeth gan gynnwys ADHD a dyslecsia, ac amhariadau ar y golwg. Defnyddiwch ein botwm Recite me ar www.nea.org.uk**

**National Energy Action** yw'r elusen tlodi tanwydd genedlaethol, sy'n helpu pawb i gael cartref cynnes, diogel ac iach. Ewch i **www.nea.org.uk.**

© National Energy Action 2025, rhif cofrestru elusen 290511. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rh: 01853927.